Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Ymateb i Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Cymru Wrth-hiliol

Mehefin 2021

Cyflwyniad

Mae'r Comisiynydd yn croesawu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru a'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Mae pandemig Covid-19 wedi tynnu sylw at yr anghydraddoldebau sy'n bodoli yng Nghymru heddiw, ac mae ei ganlyniadau wedi cael effaith anghymesur ar bobl o Gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Mae angen gweithredu i sicrhau na wahaniaethir yn erbyn pobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac i sicrhau bod eu hawliau'n cael eu cynnal. Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r ffaith bod y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn seiliedig ar hawliau. Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio hawliau dim ond i ddal cyrff yn atebol pan fydd pethau'n mynd o chwith, rhaid eu defnyddio hefyd i fynd ati'n rhagweithiol i atal gwahaniaethu ac i wreiddio cydraddoldeb.

Mae'r Comisiynydd yn rhannu ac yn cefnogi'r weledigaeth a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar gyfer Cymru sy'n wrth-hiliol erbyn 2030. Er bod hyn i'w groesawu, i lawer o bobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, mae angen newid ar fwy o frys. Mae angen cynnwys newid tymor byr felly, dros yr 1 i'r 3 blynedd nesaf, yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.

Mae pobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn wynebu gwahaniaethu oherwydd eu hil a'u hethnigrwydd ond hefyd oherwydd eu hoedran. Mae bron i 1 person hŷn o bob 8 (12% o bobl 60 oed a hŷn yng Nghymru) yn teimlo bod rhywun wedi gwahaniaethu yn eu herbyn oherwydd eu hoed[1]. I bobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru, rhaid i unrhyw gamau gweithredu arfaethedig adlewyrchu rhyngblethedd oedraniaeth a hiliaeth.

[1] Cyflwr y Genedl: Trosolwg o heneiddio yng Nghymru, 2019, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

Mae'r Comisiynydd yn poeni nad yw'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn rhoi digon o sylw i oedraniaeth ac, o ganlyniad, nid yw'n adlewyrchu profiadau pobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Un o Werthoedd y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yw ei fod yn seiliedig ar brofiadau go iawn pobl o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac mae hyn i'w groesawu. Fodd bynnag, rhaid iddo hefyd roi sylw i amgylchiadau penodol pobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig er mwyn sicrhau nad yw eu profiadau yn anweledig.

Bydd amgylchiadau a phrofiadau bywyd rhywun yn cynnwys nifer o ffactorau sy'n siapio profiadau pobl yn nes ymlaen mewn bywyd. Ac ystyried bod pobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn fwy tebygol o wynebu anghydraddoldebau iechyd, cymdeithasol ac economaidd[2] mae'n bwysig sicrhau bod rhyngweithio â gwasanaethau yn effeithiol er mwyn lliniaru yn erbyn yr anghydraddoldebau hyn a chyfrannu at agwedd fwy cadarnhaol at heneiddio.

Ar ben hynny, mae'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn cyfeirio at gyfraniad y genhedlaeth iau o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig at 'oresgyn effeithiau tebygol poblogaeth sy'n heneiddio'. Mae iaith yn bwysig ac mae perygl bod geiriau fel hyn yn cyfleu agwedd negyddol ar heneiddio ac ar bobl hŷn. Mae'n bwysig cydnabod hefyd bod poblogaeth bresennol a dyfodol pobl o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cynnwys pobl 60 oed a hŷn. O'r herwydd, rhaid i'r camau gweithredu a'r canlyniadau sydd yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol gyflawni i bobl hŷn yn ogystal ag ar gyfer grwpiau oedran eraill mewn cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch tystiolaeth ar y materion penodol sy'n wynebu pobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, bydd y Comisiynydd yn cynnal ymchwil eleni i brofiadau pobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ledled Cymru. Bydd yr ymchwil yn cynnwys argymhellion ar gamau y bydd angen eu cymryd i wella profiadau pobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Rhoi deddfau cyfredol ar waith

Er na ddylid gorbwysleisio'r angen am y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, mae'n amlwg y gellid mynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd gan bobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig pe bai'r cyfreithiau presennol yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol. O'r herwydd, mae'n bwysig deall beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio yn y cyd-destun deddfwriaethol presennol.

Yn ogystal â'i hymgysylltiad parhaus â phobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, mae'r Comisiynydd wedi cymryd rhan mewn nifer o sesiynau sydd wedi cael eu cynnal gan Eyst (Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig), sydd wedi darparu cyfleoedd gwerthfawr i wrando ar brofiadau pobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ac i siarad â nhw am yr hyn sydd angen ei newid. Mae'r materion a godwyd yn cynnwys diffyg

[2] Social Isolation and Older Black, Asian and Minority Ethnic People in Greater Manchester, 2018, Ambition for Ageing

sensitifrwydd diwylliannol mewn amgylcheddau cartrefi gofal, y ddealltwriaeth o anghenion cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig gan weithwyr cymdeithasol a'r diffyg mecanweithiau cwyno effeithiol sydd wedi golygu bod pobl yn teimlo nad oes neb yn eu credu pan fyddant yn mynegi pryderon. Ar ben hynny, roeddent yn siarad ynghylch pa mor gyffredin yw microymosodiadau ac agweddau negyddol rhai gweithwyr proffesiynol at yr angen am sensitifrwydd diwylliannol, gan dybio'n aml bod y rheini sy'n mynegi pryderon yn 'chwarae'r cerdyn hil eto'.

Er bod angen herio agweddau hiliol yn fwy cyffredinol, dylid mynd i'r afael â materion sy'n sensitif i ddiwylliant mewn lleoliadau fel gofal cymdeithasol neu fecanweithiau cwyno effeithiol drwy ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli. Er enghraifft, mae Adran 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys dyletswydd ar unrhyw un sy'n cyflawni swyddogaeth gofal cymdeithasol i ystyried nodweddion, diwylliannau a chredoau unigolyn, yn ogystal â dyletswydd i drin unigolion gyda pharch ac urddas. Yn yr un modd, mae Rheoliad 64 Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, fel y'u diwygiwyd, yn mynnu bod gan ddarparwyr rheoledig fel cartrefi gofal drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer delio â chwynion, sy'n cynnwys sicrhau bod ymateb priodol i rywun sy'n cwyno, yn ogystal â sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd yn dilyn ymchwiliad. Felly, mae'n ymddangos yn briodol ein bod yn y lle cyntaf yn sicrhau bod y dyletswyddau cyfreithiol presennol yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol gan gyrff cyhoeddus, cyn ystyried atebion newydd.

Yn yr un modd, nid yw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) yng Nghymru wedi bod mor effeithiol ag y gallai fod, gyda chyrff cyhoeddus ddim bob amser yn ei hystyried yn llawn ac yn methu cynnal Asesiadau priodol o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Gallai'r adolygiad o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r dyletswyddau sy'n benodol i Gymru fod yn gyfle i gryfhau hyn. O'r herwydd, mae hi'n bwysig cydymffurfio'n well â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru a bod y mecanwaith hwn yn cael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol i gyflawni newid i bobl o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Nodau polisi a chamau gweithredu

Eiriolaeth Annibynnol

Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r ymrwymiad yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i wella'r gefnogaeth a'r eiriolaeth sydd ar gael i gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig er mwyn cefnogi pobl i godi pryderon a mynd i'r afael ag ymddygiad hiliol. Mae pobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wedi bod yn gofyn yn gyson am eiriolaeth annibynnol arbenigol i bobl hŷn. Er y bydd y cam hwn yn cael ei weithredu fel rhan o'r Corff Llais y Dinesydd newydd, nid yw'n glir a fydd y corff hwn yn darparu'r eiriolaeth annibynnol wedi'i theilwra sy'n gallu ymateb i sensitifrwydd diwylliannol yn ogystal â darparu eiriolaeth mewn amrywiaeth o ieithoedd yn ôl yr angen.

Casglu Data

Croesewir thema drawsbynciol y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol o sicrhau data ystyrlon, cadarn a defnyddiol ar ethnigrwydd. Mae diffyg data cadarn am ethnigrwydd a rhyngblethedd yn golygu ein bod mewn perygl o wneud profiadau pobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn anweledig. Mae'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn cynnwys nifer o gamau gweithredu sy'n ymwneud â chasglu data gwell, ac mae hyn i'w groesawu. Ar hyn o bryd, mae ystadegau gwasanaethau cymdeithasol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ond yn cynnwys un mesur sy'n cofnodi data am ethnigrwydd ac mae hwnnw'n ymwneud â nifer yr adroddiadau diogelu a gaiff awdurdodau lleol. Er y croesewir y cam gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i gomisiynu dadansoddiad o'r bylchau mewn data ethnigrwydd, yn rhy aml nid yw ystadegau a gyhoeddir yn cynnwys data ethnigrwydd na data am oed. Er mwyn rhoi sylw digonol i anghenion pobl sy'n dod o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac sy'n 60 oed a hŷn, rhaid gwneud casglu data cydraddoldeb (ar ethnigrwydd yn ogystal â nodweddion gwarchodedig eraill) yn orfodol.

Cam-drin Pobl Hŷn

Un o flaenoriaethau'r Comisiynydd yw atal cam-drin pobl hŷn. Mae miloedd o bobl hŷn yng Nghymru yn cael eu cam-drin, gyda'r mathau o gam-drin mae pobl hŷn yn ei wynebu yn cynnwys cam-drin corfforol; cam-drin domestig; cam-drin rhywiol; cam-drin seicolegol neu emosiynol; cam-drin ariannol neu faterol; cam-drin sefydliadol neu gyfundrefnol; esgeulustod; a rheoli dan orfodaeth. Yn aml, nid yw cam-drin pobl hŷn mor amlwg o ystyried y diffyg data a thystiolaeth gadarn sy'n ymwneud â cham-drin pobl hŷn. Yn aml, nid yw data sy'n cael ei gasglu am gam-drin yn cael ei ddadansoddi yn ôl oedran, felly nid yw'n bosibl nodi beth yw profiadau pobl hŷn. Nid yw cam-drin yn cael ei riportio'n ddigonol chwaith – efallai fod pobl hŷn (ac weithiau eu teulu a'u ffrindiau) yn poeni am wneud hynny rhag ofn i hynny arwain at sgil-effeithiau negyddol.

O'r herwydd, mae'r Comisiynydd yn croesawu cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â cham-drin domestig yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Mae ymchwil gan y Ganolfan dros Gyfiawnder Menywod yn nodi bod 'pob menyw yn profi cam-drin mewn cyd-destun diwylliannol, o ran llunio profiad menywod o gam-drin domestig a mathau eraill o drais ar sail rhywedd, a'u hymateb i hynny.[3] Mae'n bwysig sicrhau bod anghenion menywod hŷn yn cael eu gweld yng nghyd-destun trafodaethau ar gam-drin domestig mewn cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a bod yr anghenion hyn yn gallu amrywio mewn cymunedau ethnig gwahanol. Cyfyngedig yw'r gwasanaethau sydd ar gael i fenywod hŷn sy'n cael eu cam-drin, felly mae angen camau gweithredu penodol yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i helpu i fynd i'r afael â'r bwlch hwn er mwyn cyflawni nod y Cynllun o sicrhau gwasanaethau cefnogi arbenigol i fenywod Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n cael eu cam-drin.

Mynediad at wasanaethau dementia

[3] Y Ganolfan dros Gyfiawnder Menywod (2021) Women Who Kill: How the State Criminalises Women We Might Otherwise Be Burying. Ar gael yn: https://bit.ly/2SqMsTv

Mae'n siomedig nad yw'r nod o ran mynediad at ofal iechyd, sy'n ceisio sicrhau bod unigolion yn cael cymorth i gael gofal iechyd, yn cynnwys gwella mynediad at wasanaethau dementia. Er bod y nod o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn cynnig camau gweithredu i edrych ar ffyrdd o wella mynediad cynnar at wasanaethau iechyd meddwl a dementia ar gyfer poblogaethau lleiafrifoedd ethnig, mae angen gwreiddio camau gweithredu ar ddementia drwy gydol y nodau a'r camau gweithredu ar ofal iechyd sydd yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Ar hyn o bryd, dim ond un cyfeiriad at ddementia sydd yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, sy'n ddiffyg sylweddol.

Gweithwyr hŷn

Mae llawer o weithwyr hŷn yn wynebu oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed yn y gweithle. Mae ymchwil gan y Ganolfan Heneiddio'n Well wedi dangos bod gweithwyr hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn wynebu nifer o anghydraddoldebau strwythurol a gwahaniaethu strwythurol sydd wedi cronni dros oes, gyda gweithwyr Du yn fwy tebygol o ymddeol yn hwyrach a chael incwm is yn ystod eu hymddeoliad wrth gymharu â'u cymheiriaid gwyn[4]. Bydd cael gafael ar gyfleoedd ailhyfforddi yn arbennig o bwysig wrth i ganlyniadau economaidd pandemig Covid-19 ddod yn gliriach, gan fod hyn wedi rhoi swyddi llawer o weithwyr hŷn yn y fantol. Mae llawer o fenywod hŷn, y gallai'r newid i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth fod wedi effeithio arnynt hefyd, mewn perygl penodol o fynd i dlodi os byddant yn colli eu swydd ac yn methu dod o hyd i waith newydd.

Felly, mae'n bwysig bod y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn mynd i'r afael â'r materion penodol y mae gweithwyr hŷn yn eu hwynebu mewn gwaith ac wrth geisio cael gwaith. Byddid yn croesawu ymrwymiadau i ddarparu cefnogaeth a hyfforddiant i gyflogwyr allu adnabod bylchau'n well mewn datblygiad gyrfa, hyfforddiant a chyfleoedd ailhyfforddi ar gyfer gweithwyr hŷn, yn ogystal â chyfeiriad at MOTs canol oes i sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn gallu ystyried eu hopsiynau wrth iddynt fynd yn hŷn. Yn aml mae diffyg data'n cael ei gasglu am bobl hŷn yn y gweithlu, felly mae angen i'r camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ystyried hyn er mwyn i bobl hŷn fod yn rhan o'r ystyriaethau wrth adolygu effeithiolrwydd meysydd gwaith penodol, fel mynediad at brentisiaethau.

Llywodraethu a goruchwylio

Er mwyn sicrhau bod y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn cyflawni newid pendant a pharhaol i bobl o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, bydd goruchwyliaeth gadarn yn hanfodol. Bydd methu â chyflawni newid cadarnhaol yn gallu gwthio grwpiau o bobl sydd eisoes ar y cyrion ymhellach i'r cyrion, gan gynnwys pobl hŷn.

Cynigir i'r Grŵp Llywio a arweiniodd y gwaith o ddatblygu'r Cynllun ddod yn Grŵp Cynghori i oruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Nid oedd yn ymddangos bod aelodaeth y Grŵp Llywio yn cynnwys cynrychiolaeth o sefydliadau pobl

[4] Y Ganolfan Heneiddio'n Well (2020) Ethnic inequalities among over 50s revealed in new research. Ar gael yn: https://www.ageing-better.org.uk/news/ethnic-inequalities-among-over-50s-revealed-new-research

hŷn, rhywbeth y dylid rhoi sylw iddo wrth ffurfio'r Grŵp Cynghori i sicrhau bod y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn cyflawni ar gyfer pobl hŷn o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Er bod y Grŵp Cynghori yn rhan bwysig o'r strwythur llywodraethu, rhaid i Lywodraeth Cymru ysgwyddo'r cyfrifoldeb terfynol dros sicrhau bod y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn cael ei oruchwylio'n gadarn. Rhaid i hyn gynnwys gwybodaeth fonitro ddigonol, gan gynnwys casglu data monitro ar weithrediad y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a'i effaith yn y tymor byr, canolig a hirach.

Bydd ymchwil y Comisiynydd i brofiadau pobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru yn cyhoeddi ei argymhellion yn 2022. Byddai'r Comisiynydd yn fodlon gweithio gyda Grŵp Cynghori'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i sicrhau bod canfyddiadau ac argymhellion yr ymchwil hwn yn gallu cyfrannu at y nodau a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.

I gloi

Mae heriau diweddar pandemig Covid-19 wedi cynyddu'r angen am gamau penodol i sicrhau bod hawliau pobl o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu cynnal ac nad oes neb yn gwahaniaethu yn eu herbyn. Rhaid i brofiadau uniongyrchol ac anghenion penodol pobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru gael eu hadlewyrchu yn y gwaith hwn os ydym am sicrhau newid effeithiol i bawb.

Rhaid i ryngblethedd fod yn rhan bwysig o'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ac yn gyfrwng i edrych ar hiliaeth a gwahaniaethu. I bobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, bydd oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed hefyd yn ffactor sy'n cael effaith negyddol ar eu bywydau. O'r herwydd, rhaid i'r camau gweithredu sydd wedi cael eu datgan ar gyfer y nodau penodol yn y Cynllun gynnwys mwy o bwyslais ar fynd i'r afael â hiliaeth ac oedraniaeth, ac mae'n rhaid adlewyrchu hynny drwy'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn ehangach.

Bydd casglu data'n well yn chwarae rhan allweddol o ran sicrhau bod llunwyr polisïau'n deall profiadau pobl o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn ogystal â sicrhau bod gweithredu ac effaith y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn cael eu monitro'n effeithiol. Rhaid mynd i'r afael â bylchau mewn data ar ethnigrwydd a nodweddion gwarchodedig ychwanegol, fel oedran, fel mater o frys er mwyn sicrhau nad yw profiadau pobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn anweledig.

Mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i chwarae rhan weithredol drwy gyfrannu at lwyddiant y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Ar ben hynny, bydd yn parhau i ddefnyddio ei rôl graffu i ddal ati i adolygu effeithiolrwydd y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol mewn perthynas â phobl hŷn a bydd yn parhau i ymgysylltu â phobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i sicrhau bod y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn arwain at newid amlwg yn y tymor byr a'r tymor hirach.

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gwarchod ac yn hybu hawliau pobl hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion er mwyn gwella eu bywydau. Mae'n darparu cymorth a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn trwy ei thîm gwaith achos ac yn gweithio i rymuso pobl hŷn a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ac y gweithredir ar yr hyn y maen nhw'n ei ddweud. Mae rôl y Comisiynydd yn seiliedig ar gyfres unigryw o bwerau cyfreithiol i'w chefnogi i adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dal i gyfrif pan fo angen.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i roi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran; atal cam-drin pobl hŷn; a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd eisiau i Gymru fod y lle gorau yn y byd i heneiddio ynddo.

Sut i Gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

E-bostio: ask@olderpeoplewales.com

Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Twitter: @comisiwnphcymru